## Aflonyddu rhywiol

10 Rhagfyr 2018

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

1. *Fel cyfanswm, faint o gyhuddiadau o aflonyddu rhywiol a wnaed gan aelodau o staff yn erbyn aelodau eraill o staff? O'r rhain yn 1, faint o'r achwynwyr oedd yn fenywod? O'r rhain yn 1, faint o'r rhai a gafodd eu cyhuddo oedd yn ddynion?*
2. *Faint o aelodau o staff oedd yn destun achos disgyblu oherwydd cyhuddiadau o aflonyddu rhywiol yn y gweithle?*
3. *Faint o aelodau o staff gafodd eu diswyddo oherwydd aflonyddu rhywiol yn y gweithle?*
4. *Faint o arian y mae'r awdurdod wedi'i dalu mewn iawndal neu setliadau i unigolion o ganlyniad i achosion o gamymddygiad rhywiol? Dylai'r ateb gynnwys achosion lle daethpwyd i setliad ariannol allan o'r llys ar ôl i honiad gael ei ffeilio, hyd yn oed pan nad yw'r awdurdod yn derbyn yr honiad/atebolrwydd; a dylai hefyd gynnwys achosion lle na chafodd achosion llys eu cychwyn ond lle gwnaeth yr awdurdod dalu iawndal neu wneud cytundeb heb o reidrwydd dderbyn atebolrwydd. Beth oedd y swm unigol mwyaf a dalwyd at ddiben o'r fath? (Os byddai dod o hyd i'r wybodaeth hon yn golygu bod y cais yn mynd dros y trothwy ar gyfer costau cydymffurfio, anwybyddwch y cwestiwn hwn)*
5. *Beth yw polisi'r awdurdod ar gyfer dod i gytundebau peidio â datgelu (NDAs)?*
6. *Faint o achosion yn y flwyddyn a nodir uchod y mae'r awdurdod wedi defnyddio NDAs i ddatrys achosion o aflonyddu rhywiol? (Os byddai dod o hyd i'r wybodaeth hon yn golygu bod y cais yn mynd dros y trothwy ar gyfer costau cydymffurfio, anwybyddwch y cwestiwn hwn)*

Gweler ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

1. Dim
2. Dim
3. Dim
4. Dim
5. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn cysylltiad â'ch cais.
6. Amherthnasol

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i’ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF